

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 4 MEHEFIN 2020

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWIWYD YN O BELL TRWY SKYPE FOR BUSINESS DYDD IAU, 4 MEHEFIN 2020, AM 14:00

Presennol

Y Cyngorydd G Thomas – Cadeirydd

TH Beedle	JPD Blundell	NA Burnett	RJ Collins
SK Dendy	DK Edwards	RM Granville	RM James
MJ Kearns	DRW Lewis	JE Lewis	RL Penhale-Thomas
JC Radcliffe	JC Spanswick	RME Stirman	MC Voisey
KJ Watts	CA Webster	AJ Williams	

Swyddogion:

Rhodri Davies	Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu
Craig Flower	Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Rod Jones	Uwch Cyfreithiwr
Robert Morgan	Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth
Jonathan Parsons	Rheolwr Grŵp Datblygu
Andrew Rees	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Leigh Tuck	Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth

371. DATGANIADAU BUDDIANNAU

Dim.

372. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, dyddiedig 22 Chwefror 2020, yn gofnod gwir a chywir, yn amodol ar yr Amod 3 diwygiedig o'r caniatâd a gymeradwywyd mewn perthynas â chais cynllunio P/19/810/FUL a fanylwyd yng Nghofnod 366, a nodwyd fel a ganlyn:-

3. Bydd adeilad yr ystafell werthu a ganiateir trwy hyn yn gweithredu ar sail apwyntiad yn unig a bydd ar agor i gwsmeriaid rhwng yr amserau canlynol:

Dydd Iau, dydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Llun rhwng 10:00 a 17:30;
dydd Sul a Gwyliau Banc rhwng 10:00 a 16:30 yn unig.

Ni fydd yr ystafell werthu ar agor i gwsmeriaid ar unrhyw adeg ar ddydd Mawrth na dydd Mercher.

Rheswm: Er mwyn amwynder preswyl.

373. TAFLEN DDIWYGIADAU

PENDERFYNWYD:

Derbyniodd y Cadeirydd Daflen Ddiwygiadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor, fel bod y Pwyllgor yn gallu ystyried addasiadau angenrheidiol i adroddiad y

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 4 MEHEFIN 2020

Pwyllgor, er mwyn ystyried cynrychiolaethau a diwygiadau hwyr y mae'n ofynnol rhoi sylw iddynt.

374. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Bod y crynodeb o Ganllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel y'i manylir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, yn cael ei nodi.

375. P/20/119/FUL - BRIDGEND PAPER MILLS, (WEPA), A4063, LLANGYNWYD, CF34 9RS

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r cais cynllunio uchod, yn amodol ar y canlynol:-

1) Bod yr ymgeisydd yn llunio Cytundeb Adran 106 i ddarparu cyfraniadau ariannol fel a ganlyn:

- swm o £8,000 i ariannu gorchmynion traffig cyfreithiol;
- swm o £60,000 (i'w dalu o fewn 12 mis o ddyddiad y caniatâd) tuag at asesiad dichonoldeb o lwybr Teithio Llesol trwy Gwm Llynfi;
- swm o £20,000 i ariannu mesurau gostegu traffig porth yng Ngoetre-hen.

2) Bod y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu yn cael pwerau dirprwyedig i gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad sy'n rhoi caniatâd mewn perthynas â'r cynnig hwn pan fydd yr ymgeisydd wedi llunio'r Cytundeb Adran 106 uchod, yn ddarostyngedig i'r Amodau ac unrhyw Nodiadau a gynhwysir yn ei adroddiad a ddiwygiwyd fel y'u hamlinellir yn y Daflen Ddiwygiadau ac a fanylir isod.

Cynnig:

Ymestyn y gweithrediad presennol, gan gynnwys estyniad ar gyfer ardal paratoi stoc a pheiriant papur newydd, cyfleusterau trawsnewid a warws newydd ac adeiladau atodol.

Yn ddarostyngedig i'r canlynol, o ran yr Amodau yn Adroddiad y Swyddog:-

Nid oes angen **Amod 8** gan fod y manylion wedi'u cynnwys gyda'r cais.

Ar ôl derbyn gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeisydd, dylai **Amod 14** ddarllen fel a ganlyn:

14. O fewn 3 mis o ddyddiad y caniatâd hwn, bydd Adroddiad Disgrifiad a Phroses diwygiedig ar gyfer y Prosiect yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gadarnhau bod digon o gapasiti yn y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff presennol i dderbyn y cynnydd mewn elifion masnach a llifoedd dŵr brwnt. Bydd yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru, cyn i'r datblygiad gael ei ddefnyddio mewn ffordd fuddiol, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r Drwydded Amgylcheddol.

Dylai **Amod 17** gynnwys cyfeiriad penodol at Gamau 2 a 3 y datblygiad o ganlyniad i leoliad nodweddiadol glofaol, a gellir ei ddiwygio fel a ganlyn:

17. Ar ôl gweithredu a chwblhau'r cynllun adfer cymeradwy ar gyfer camau 2 a 3 (sy'n ofynnol gan amod 16 uchod), a chyn i'r rhan honno o'r datblygiad gael ei defnyddio'n fuddiol am y tro cyntaf, bydd adroddiad dilysu yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig i gadarnhau bod y cynllun

adfer wedi cael ei gwblhau yn unol â'r manylion cymeradwy.

Gellir diwygio **Amod 18** fel a ganlyn:

18. Cyn i bob Cam o'r datblygiad gael ei weithredu uwchben lefel sylfeini/slab, bydd cynllun manwl yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'i gytuno ganddo, i ddangos y bydd y gwerthoedd inswleiddio sain a ddefnyddiwyd yn y rhagfynegiadau modelu sŵn yn adran 4.3 yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol – Sŵn 57100_0219_Asesiad Sŵn ar gyfer yr unedau caeëdig a'r adeiladau canlynol yn cael eu cyflawni:

- Bydd byrnwr Adran B wedi'i amgáu yn llwyr. Bydd uned gaeëdig byrnwr Adran B yn darparu gwerth inswleiddio sain (Rw) o 40dB(A) o leiaf
- Bydd pob elfen o waliau a tho Adran C yn darparu gwerth inswleiddio sain (Rw) o 50dB(A) o leiaf
- Bydd waliau a tho Adran F yn darparu gwerth inswleiddio sain (Rw) o 40dB(A) o leiaf

Bydd y cynllun cytunedig yn cael ei weithredu'n llawn a bydd gwerthoedd inswleiddio sain yr uned gaeëdig a'r adeiladau y cyfeirir atynt uchod yn cael eu cadw ar hyd oes y datblygiad.

Gellir diwygio **Amod 20** fel a ganlyn:

20. Oni nodir fel arall, cyn i'r datblygiad gael ei ddefnyddio'n fuddiol, bydd y mesurau lliniaru canlynol yn cael eu gweithredu'n llawn yn unol ag adran 5.2 yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol – Sŵn 57100_0219_Asesiad Sŵn:

- Cyn i Gam 3 y cynllun (Adeilad Storio Cilfachau Uchel) gael ei ddefnyddio'n fuddiol, bydd rhwystr acwstig 6m o uchder yn cael ei osod i sgrinio rhwng yr Adran F arfaethedig a Fferm Brynsiriol (Derbynnydd NSR02 yn yr adroddiad sŵn), fel y dangosir ar gynllun llawr y rhwystr acwstig a Chynllun Trychiad Rhif: 51106-1005. Bydd y rhwystr yn ddi-fwlch ac yn amhydradwy. Bydd manylion dylunio'r rhwystr yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'u cytuno ganddo, cyn iddo gael ei osod, gan gynnwys y math o rwystr, ei fâs a'r lefel wanhau y bydd yn ei darparu. Bydd y rhwystr acwstig yn cael ei gynnal a'i gadw ar hyd oes y datblygiad.
- Dim ond symudiadau HGV 'Nwyddau Gorffenedig' a 'Phaledi' a fydd yn digwydd rhwng 23.00 a 07.00 o'r gloch. Bydd gostyngiad 50% mewn symudiadau HGV oriau brig (fel y dangosir yn y golofn 'Fesul Awr ar gyfer y Model' yn Nhabl 2-12 yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol – Sŵn 57100_0219_Asesiad Sŵn) rhwng 23.00 a 07.00 o'r gloch.
- Rhwng 23.00 a 07.00 o'r gloch, ni fydd mwy nag un cerbyd ar y tro yn cael ei lwytho'n allanol, h.y. er y ceir parcio mwy nag un cerbyd ar gyfer llwytho, rhaid i ffynonellau sŵn allanol a ddefnyddir ar gyfer llwytho sawl cerbyd beidio â gweithredu ar yr un pryd.

Dylai'r Rheswm dros **Amod 28** yr adroddiad ddileu'r geiriau "i'r Ysgol ac oddi yno."

376. EITEMAU BRYD

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:10